

Lladron llawenydd

“Felly chwithau, yr ydych yn awr mewn tristwch. Ond fe’ch gwelaf chwi eto, ac fe lawenha eich calon, ac ni chaiff neb ddwyn eich llawenydd oddi arnoch.”
(adn. 22)

Beth am ddarllen Ioan 16:17–33 ac yna myfyrio

Dyna i chi anogaeth ragorol i’n heneidiau ydy’r adnod hon: all neb ddwyn ein llawenydd. Mae’r llawenydd mae Iesu’n ei roi yn ein meddiant am byth. Wrth gwrs, mae yna lawer o bethau sy’n trio dwyn ein llawenydd, fel gofid ac ofn, cymharu a chwenychu, prysurdeb a gormod o ymrwymadau.

Mae un diwinydd, fodd bynnag, yn dadlau nad tristwch ydy’r gwrthwyneb i lawenydd ond anghrediniaeth. Efallai ei fod yn gywir. Er ein bod yn ystyried tristwch fel y gwrthwyneb i lawenydd, efallai mai’r hyn sy’n ein hamddifadu o lawenydd ydy anghrediniaeth. Hyd yn oed pan fydd amgylchiadau allanol yn ein tristáu, gall ein llawenydd gael ei gynnal gan ein cred yn Nuw. Mae’r apostol Paul yn dweud yn 2 Corinthiaid ei fod “dan dristwch, ond bob amser yn llawenhau” (2 Cor. 6:10). Profodd Paul lawer iawn o dristwch, felly, os tristwch sy’n mynd â llawenydd oddi arnom, yna Paul fyddai’r person mwyaf digalon yn y Testament Newydd. Ac eto, ysgrifennodd: “Y mae fy nghwpan yn llawn o dddiddanwch, ac yn gorlifo â llawenydd yng nghanol ein holl orthrymder” (2 Cor. 7:4). Pan beidiwn â chredu celwyddau’r diafol a rhoi ein ffydd yn yr hyn mae Crist yn ei ddweud, yna byddwn yn cymryd y cam mwyaf arwyddocaol tuag at gynnal ein llawenydd ysbrydol. Mae ymddiriedaeth a ffydd yn dinistrio’r celwyddau mae’r diafol yn eu rhoi yn ein meddyliau ac yn caniatáu i lawenydd anadlu’n rhwydd. Ysgrifennodd y salmydd hyn am yr Arglwydd: “Y mae ein calon yn llawenychu ynddo am inni ymddiried yn ei enw sanctaidd.” (Salm 33:21)

Dyma ddywedodd un dyn ifanc am ei dad oedd newydd farw: “Pan aeth fy nhad i gysgu ar ysgwydd fy mam am y tro olaf ar y ddaear yma, roedd ei wyneb yn disgleirio o lawenydd. Dyma fi’n dweud wrth fy mam, gan ailadrodd y geiriau yn Ioan 16:22: ‘... ni chaiff neb ddwyn eich llawenydd oddi arnoch. Mae hyn yn wir am bawb sy’n marw yng Nghrist; mae ei lawenydd ef yn aros gyda nhw tan y diwedd.’”

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Marc 4:13–20; 1 Thes. 3:6–13; 1 Pedr 1:3–9

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Am beth oedd Paul yn diolch?
2. Beth oedd rheswm darllenwyr Pedr dros lawenhau?

Gweddi Dad, dw i mor ddiolchgar dy fod wedi addo y bydd dy lawenydd yn aros gyda mi o dan bob amgylchiad. All neb ei ddwyn. Bendigedig fyddo d’enw byth bythoedd. Amen.